

Y Pwyllgor Diwylliant - CC-10-01(p.2)

Dyddia: 6ed Mehefin 2001
Amser: 10.00am-13.00pm
Lleoliad: Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

ADOLYGIAD Y PWYLLGOR DIWYLLIANT O'R IAITH GYMRAEG Cyflwyniad gan Gyngor Llyfrau Cymru

6 Mehefin 2001

Y maes yr hoffwn ei gyflwyno i'ch sylw heddiw yw darllen a phwysigrwydd darllen.

Gallwn nodi o leiaf bedwar rheswm pam y mae darllen yn bwysig:

- Pwysigrwydd darllen er mwyn cyflawni amcanion addysgol.
- Pwysigrwydd darllen fel un o'r sgiliau hanfodol sydd ei angen ar weithlu er mwyn medru creu cymunedau ffyniannus.
- Pwysigrwydd darllen er mwyn meithrin dinasyddion deallus sydd â'r ddawn a'r awydd i ystyried materion o bwys, a'r gallu i bwysu a mesur y ffeithiau a dod i gasgliadau mewn ffordd aeddfed ac annibynnol. Hynny yw, pwysigrwydd darllen i greu democratiaeth wydn, berthnasol, gynhwysfawr.
- Pwysigrwydd darllen i greu cenedl wâr sydd yn gallu cymryd ei lle ysgwydd wrth ysgwydd â chenhedloedd eraill y byd.

Hoffwn feddwl y byddai cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r rhain, ond eto maent yn werth eu hailadrodd gan nad oes sôn o gwbl am ddarllen yn y papurau cefndirol i'r arolwg hwn.

Mae yna ddihareb Gymraeg sy'n datgan 'Gorau cof, cof llyfr' ac ymadrodd Saesneg 'either we learn from history or we are condemned to repeat it'. Un o wersi pwysicaf hanes i ni yng Nghymru yw: oni bai am un llyfr, yn anad dim arall, ni fuasem yma heddiw yn trafod yr iaith Gymraeg a'i dyfodol mewn cymdeithas ddwyieithog.

O ystyried tynged chwaer-ieithoedd y Gymraeg yng Nghernyw a Llydaw, gallwn ddyfalu mai rhyw frodwaith o dafodieithoedd fyddai gennym yng Nghymru heddiw – a chymryd y byddai'r iaith Gymraeg yn bod o gwbl – oni bai am Feibl William Morgan. Er cryfed yr iaith lafar mewn gwlad uniaith fel Cymru yr unfed ganrif ar bymtheg, dirywio'n gasgliad o dafodieithoedd fuasai hanes y Gymraeg oni bai am y gwaith cyfannu a safoni a gyflawnwyd gan y gair printiedig.

Gyda'r holl bwyslais yn eich trafodaethau ar yr ymgais glodwiw i greu rhagor o siaradwyr a gwrandawyr y Gymraeg, y mae'n hollbwysig nad yw'r Pwyllgor Diwylliant yn colli golwg ar wersi hanes am bwysigrwydd sylfaenol darllen ac ysgrifennu'r iaith.

Yn yr oes sydd ohoni, nid yw print ar bapur ond yn un o nifer o gyfryngau darllen – ac y mae'r Cyngor Llyfrau ar hyn o bryd, gyda chymorth ariannol gan y Cynulliad, yn ymchwilio i sut y gallai'r Gymraeg fanteisio ar y cyfryngau electronig newydd – eto, hoffwn sôn am rai nodweddion penodol sy'n perthyn i'r llyfr.

- Nid oes dim ar hyn o bryd a all gymryd lle'r llyfr yn achos plant sy'n dysgu darllen. Fel unrhyw sgîl arall, mae'n rhaid ymarfer darllen. Os mai'r cyfan a wneir yw symud o un wers ddarllen i'r wers ddarllen nesaf, heb unrhyw ymarfer, fe fydd y canlyniad yn debyg i symud o un wers bianco i'r wers bianco nesaf heb ymarfer, ac y mae nifer ohonom, rwy'n siŵr, yn gwybod beth sy'n digwydd dan amgylchiadau fel yna! Yn achos darllen, yr ymarfer sydd ei angen yw ymgolli mewn stori sydd wedi gafael yn y dychymyg, stori sy'n gorfodi'r darllenydd i droi'r tudalen i gael gwybod beth sy'n digwydd nesaf. Rwy'n sôn yn benodol am stori, gan nad yw na darllen ffeithiol, na darllen gwybodaeth ar sgrin, yn cadw'r darllenydd wrth y gwaith am ddigon o amser i arwain at feistrolaeth o'r cyfrwng.
- Llyfrau yw'r unig gyfrwng sydd ar gael i bawb eu defnyddio yn eu cartrefi yn rhad ac am ddim ac yn ddiwahân. Y rhain yw'r cyfrwng mwyaf cynhwysol sydd gennym. Dyma beth y mae ein cyfundrefn o lyfrgelloedd cyhoeddus yn ei sicrhau.
- Fe ddaw y llyfr electronig, rwy'n siŵr, lle y bydd yn bosibl i ddarllen deunydd ar sgrin fach ar siâp llyfr. Ond, er mwyn cael eglurder print, y tebyg yw y bydd raid i'r sgrin fod yn un lliw, ac y mae'n anodd dychmygu ar hyn o bryd y bydd y rhain ar gael i bawb yn rhad ac am ddim. Felly fe erys y llyfr yn gyfrwng pwysig i mewn i'r dyfodol gweladwy.
- Yn yr oes wybodaeth yr ydym yn rhan ohoni, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darllen fel cyfrwng i gywain gwybodaeth, ond fe hoffwn sôn am fath arall o ddarllen, sef darllen fel proses greadigol unigryw. Proses lle mai chi, y darllenydd, sy'n creu'r cymeriadau a'r digwyddiadau sy'n ymddangos ar lwyfan eich dychymyg. Sawl un ohonom sydd wedi darllen y llyfr ac wedyn, wrth wyllo'r ffilm, wedi ymateb – 'Na, nid dyna fel oedd e'n edrych!'.

Hoffwn sôn am yr hyn sy'n digwydd pan fo'r llyfr yn eich llaw yn diflannu wrth i chi ymgolli mewn stori; pan fyddwch yn symud i lefel uwch o ymwybyddiaeth, lle nad ydych yn darllen na llythyren na gair ond yn ail-greu ystyr yn uniongyrchol.

Hoffwn sôn am sut yr ydym, ar y lefel yma, yn gallu uniaethu â phobl dros gyfnodau maith o amser ac mewn mannau pell i ffwrdd. Trwy'r uniaethu yma down yn ymwybodol o'r pethau sy'n gyffredin i ddynolryw ar draws y byd ac ar hyd y canrifoedd. Hynny yw, beth yw ystyr bod yn fod dynol.

Hoffwn sôn fel y mae ein hunaniaeth ni fel Cymry yn cael ei diffinio gan yr hyn yr ydym yn ei ddarllen – y straeon am Sali Mali a Siôn Blewyn Coch; yr hanesion am Twm Siôn Cati, Guto Nyth Brân a Jemima Nicholas; hanesion am Llywelyn Fawr, Ifor Bach, Merched Beca a therfysgoedd Merthyr; mantell fraith Joseff a doethineb Solomon; y brenin Arthur, bedd Branwen a'r ferch a grewyd o flodau'r maes.

Hoffwn sôn fel y mae darllen yn dangos nad ni yw'r rhai cyntaf i wynebu neu ddiodef y peth a'r peth, a'r ffordd y mae darllen am rywun arall a'i ddull o ymateb yn crisialu yn y meddwl rai pethau nad oeddynt cyn hynny ond yn syniadau annelwig.

Y syniad sy'n cael ei grynhoi yn 'Ydwyf yr hyn a ddarllenwyf'.

OND! Rwyf wedi cael fy rhybuddio fod y pethau hyn yn llawer rhy annelwig a haniaethol i sôn amdanyn nhw fan hyn.

Eto, yng nghanol y pethau hyn a'u tebyg y mae hanfod darllen. Ac y mae hanfod darllen yn gofyn bod unigolyn yn medru trin iaith ar lefel soffistigedig, aruchel – darllen y llinellau, darllen rhwng y llinellau, darllen y tu hwnt i'r llinellau.

Pan soniwn ni am feithrin cymdeithas ddwyieithog, rhaid wynebu'r ffaith ein bod yn sôn am bobl sy'n meddu ar y sgiliau hyn mewn dwy iaith, oni bai ein bod yn sôn am un iaith fyw, rywiog, rymus, ffyniannus ac ail iaith dlawd, wan ac amherthnasol.

Un peth a grefwn, felly, yw bod y pethau sy'n ysgogi'r profiadau yr wyf wedi'u rhestru uchod i'w cael yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Does dim perygl yn y byd na fydd pethau mor hanfodol bwysig yn parhau yn Saesneg, eto mae'n ymddangos ein bod yn gorfod eu cyfiawnhau yn Gymraeg.

Felly yr wyf am orffen trwy gyfeirio at un peth arall, sef pwysigrwydd mil pum cant o flynyddoedd di-dor o ysgrifennu Cymraeg ar y lefel uchaf un, sef yr hyn sy'n cael ei adnabod fel llenyddiaeth. Yn hanesyddol, ac ar lwyfan rhyngwladol, ein gogoniant fel Cymry Cymraeg yw ein llenyddiaeth. Beth bynnag arall, a pha lwyddiannau bynnag eraill a ddaw yn sgil yr hyn sydd ar waith yma heddiw, boed i'r seiliau gael eu sicrhau, a fydd yn caniatáu i'r gwychder hwn barhau am fileniwm arall a rhagor. Boed inni hefyd ymhyfrydu at y dyfodol ein bod yn gymdeithas o bobl sy'n gallu ymateb i Shakespeare a Dafydd ap Gwilym, R.S. Thomas a Gwyn Thomas, J.K. Rowling a John Owen.

D. GERAINT LEWIS

Ysgrifennydd Mygedol, Cyngor Llyfrau Cymru

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion (gyda gofal am Ddiwylliant a Llyfrgelloedd)